**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/01859/20
Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

09 Mehefin 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Mehefin ynghylch deiseb P-05-969, sef "Ymchwiliwch i Reoliadau Drafft y Gronfa Ddata Addysg 2020 – diangen ac yn tanseilio hawliau dynol".

Mae'r ymateb cenedlaethol sy'n datblygu i Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru – gan gynnwys ar adnoddau polisi a chyllid ac, wrth gwrs, ar y capasiti deddfwriaethol. Mae'r pwysau newydd ar waith y Llywodraeth o ddydd i ddydd a'r effaith sylweddol y mae Covid-19 yn ei chael ar ein hadnoddau wedi golygu bod rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd.

Felly, gallaf roi gwybod i chi bod y Cabinet wedi cynnal ymarfer blaenoriaethu'n ddiweddar i werthuso'r hyn yr mae modd ei gyflawni a'r hyn na ellid ei gyflawni yn ystod y cyfnod ansicr hwn. O ganlyniad i'r ymarfer, ni fydd y gwaith arfaethedig ar addysg yn y cartref ac, yn yr achos hwn, Rheoliadau'r Gronfa Ddata Addysg 2020 drafft, yn mynd rhagddynt yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Nid yw hyn yn golygu fy mod yn cytuno bod y rheoliadau drafft yn ddiangen neu'n mynd yn groes i hawliau dynol. Mae'n siom na fyddwn yn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith o ddiwygio addysg yn y cartref yn y tymor hwn, ond mae'r cyfnod presennol yn un nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen ac, rwy'n siŵr y cytunwch bod yn rhaid blaenoriaethu adnoddau i reoli effaith Covid-19 yng Nghymru.

Er hynny, mae'r diwygiadau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi ac rwy'n bwriadu cadw llygad ar y sefyllfa. Os bydd yr amgylchiadau'n newid yn sylweddol, byddaf yn ailystyried y penderfyniad i beidio â pharhau â'r gwaith ar y rheoliadau. Byddaf yn rhoi gwybod i chi os

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bydd hyn yn digwydd, a byddaf yn ymateb i’r pwyntiau penodol a gafodd eu codi yn y ddeiseb.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education